

Polisi Corfforaethol - 03

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

Ein Hasedau

(Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol: DBS Gwasanaethau Corfforaethol)

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i ddiogelu, cynnal, monitro a rheoli ein hasedau (tir ac adeiladau, cerbydau, offer ac asedau corfforol eraill). Byddwn yn sicrhau y cyflawnir gwerth am arian, eu bod yn bwrpasol, yn ddiogel i'w defnyddio ac yn galluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws holl feysydd ei fusnes i sicrhau:

- Yr ymgwymerir ag ymchwil a datblygiad priodol cyn caffael
- Bod caffael asedau yn unol â'n polisi a gweithdrefnau caffael ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian
- Y caiff cofrestrï a rhestrau eiddo eu cadw a'u monitro, gyda phob ased yn derbyn Swyddog Cyfrifol dyranedig
- Y datblygir a chynhelir ymgyrchoedd cynnal a chadw a phrofi priodol i asedau perthnasol er mwyn sicrhau bod asedau yn bwrpasol
- Bod lefelau diogelwch priodol mewn lle ar gyfer yr holl asedau
- Bod lefelau yswiriant priodol mewn lle ar gyfer asedau perthnasol
- Yr eithafir cynaliadwyedd asedau
- Yr ymgwymerir ag adolygiadau priodol i sicrhau angen parhaol yr ased a'i werth
- Y cynhelir ymchwiliad priodol i fethiant neu afreoleidd-dra unrhyw ased yn brydlon
- Y gwaredir asedau yn unol â Rheoliadau Ariannol.

Llofnodwyd:



DBS Gwasanaethau Corfforaethol
3 Mehefin 2020